Adolygiad Blynyddol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth CCG 2016-2017

☎ 0300 123 8084

www.ccgwynedd.org

www.facebook.com/ccgwynedd

@CartrefiGwynedd

Cyflwyniad

- Cafodd Cynllun Strategol Cydraddoldeb 2015 - 2019 Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) ei gymeradwyo mewn cyfarfod Bwrdd ar 20 Ionawr 2016.
- Mae'r Cynllun Strategol Cydraddoldeb yn dangos sut bydd CCG yn cyflawni ei amcanion cydraddoldeb ac adrodd ar y cynnydd yn erbyn yr amcanion hynny sydd wedi eu cymeradwyo.
- Mae amcanion cydraddoldeb CCG yn elfen bwysig o'r Cynllun Strategol Cydraddoldeb.
- Er mwyn adnabod yr 8 amcan, gweithiodd CCG gyda Tai Pawb, sefydliad sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol mewn tai yng Nghymru.
- Bydd sawl pwynt gweithredu ar gyfer pob amcan cydraddoldeb. Byddant yn adnabod gwelliannau i'w rhoi ar waith dros y 4 blynedd nesaf i fuddio ein tenantiaid, staff a chymunedau.
- Bydd y cynllun yma yn sicrhau bod CCG yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Amcan 1: Hybu diwylliant cynhwysol a dangos drwy ein gwaith ein bod yn dathlu amrywiaeth

Yn dilyn cymeradwyo Cynllun Strategol Cydraddoldeb CCG yn Ionawr 2016, rydym wedi cyflawni'r canlynol:

- Mae'r mwyafrif o staff wedi derbyn hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mis Ionawr 2015.
- Mae pob aelod newydd o staff yn derbyn hyfforddiant gan fod sesiwn hyfforddiant yn cael ei drefnu pob blwyddyn.
- Mae'r Bartneriaeth wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mis Ionawr 205. Bydd hyfforddiant pellach yn cael ei drefnu ar gyfer Ionawr 2018 yn enwedig i rai sydd wedi ymuno â'r bartneriaeth yn ddiweddar.
- Mae'n rhaid i'n contractwyr ddangos eu dealltwriaeth ac ymrwymiad i gyfleoedd cyfartal fel rhan o'r broses cymeradwyo cyflenwyr.
- Mae CCG yn aelodau o Bartneriaeth Cydraddoldeb Gogledd Cymru (NWREP), Tai Pawb a Chwarae Teg.
- Mae CCG wedi arwyddo Comisiwn Arlywyddol CHI ar arweinyddiaeth ac amrywiaeth i gyflawni yn erbyn 10 her erbyn 2020.
- Mae erthyglau tenantiaid wedi cynnwys erthyglau a gyhoeddwyd yn cynnwys hybu wythnos Rhuban Gwyn sef ymgyrch yn erbyn Cam-drin yn y Cartref, cynllun Warden Ifanc, Sêr Cymunedol, Partner Cymunedol y Flwyddyn a diogelu grwpiau bregus.
- Gall cyhoeddiadau allweddol CCG fod ar gael mewn print bras, a lle fo hynny'n bosib, bydd CCG yn darparu cwsmeriaid gyda chyhoeddiadau yn y ffurf neu iaith o'u dewis hwy (e.e. Pwyleg)
- Mae CCG wedi'i achredu fel cyflogwr 2 dic

Amcan 2: Sicrhau fod cydraddoldeb yn rhan o'r broses gwneud penderfyniad dydd i ddydd

Yn dilyn cymeradwyo Cynllun Strategol Cydraddoldeb CCG yn Ionawr 2016, rydym wedi cyflawni'r canlynol:

- Swyddog Prosiectau Corfforaethol wedi adnabod fel prif swyddog cydraddoldeb staff
- Dal data ar gyfer pob tenant a phreswylwyr newydd yn BAU ers mis Medi 2015
- Nodyn atgoffa blynyddol yn cael ei yrru i denantiaid i ddiweddaru ein cofnod
- Ymgyrchoedd amrywiol wedi eu cynnal i ddal data fel ac y mae cyfleoedd ar gael
- Proses asesiad effaith cydraddoldeb wedi ei dreialu a'i gyflwyno.
- Blaen adroddiadau wedi'i diweddaru sydd yn gofyn am dystiolaeth bod AEC wedi ei gwblhau
- Aelodau Uwch Reolwyr wedi derbyn hyfforddiant
- Canllaw AEC wedi ei gynhyrchu
- Aelodau staff wedi adnabod fel ceidwad AEC
- Mae CCG yn sicrhau fod ystyriaethau cydraddoldeb yn rhan o brosesau caffael CCG, gan gynnwys rheoli contractwyr

Amcan 3: Gweithio gyda phartneriaid i ymateb yn effeithlon a mynd i'r afael gydag achosion o drosedd casineb a cham-drin yn y cartref

Yn dilyn cymeradwyo Cynllun Strategol Cydraddoldeb CCG yn Ionawr 2016, rydym wedi cyflawni'r canlynol:

- Polisïau a gweithdrefnau perthnasol wedi eu diweddaru
- Swyddogion perthnasol wedi derbyn hyfforddiant ar ddigwyddiadau diogelu
- Partneriaid wedi eu hadnabod er mwyn rhannu gwybodaeth i adnabod yn well ac atal digwyddiadau a chefnogi dioddefwyr

Amcan 4: Gwella mynediad a phrofiad cwsmeriaid o ddefnyddio ein gwasanaethau

Yn dilyn cymeradwyo Cynllun Strategol Cydraddoldeb CCG yn Ionawr 2016, rydym wedi cyflawni'r canlynol:

- Mae prosiect trawsnewid busnes wedi adnabod yr angen i gynnig apwyntiadau yn y cartref
- Yn ddiweddar mae ein prosiect swyddfeydd sydd yn rhan o'r prosiect trawsnewid wedi adolygu ein swyddfeydd a chyfleusterau i sicrhau eu bod yn hygyrch
- PEEPS ar gael i denantiaid os oes angen
- Fframwaith Cyfranogi Tenantiaid newydd wedi ei lansio yn 2016. Mae grŵp tasg a gorffen wedi ei lansio fel rhan o'r fframwaith
- Mae'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd
- Mae'r Strategaeth Ddigidol yn cael ei datblygu ac yn rhan o'r prosiect trawsnewid digidol a fydd yn golygu newid cyfrwng wrth i ni ddod yn fwy digidol yn y ffordd rydym yn cysylltu gyda chwsmeriaid a'u cynorthwyo i gael mynediad at ein gwasanaethau ar-lein
- Gweithdrefn cwynion wedi'i adolygu i sicrhau y gellir cael mynediad a bod y Gwasanaeth cwyno yn cael ei hybu i holl grwpiau

Amcan 5: Defnyddio gwybodaeth cydraddoldeb ar gyfer cynllunio gwasanaeth, ac i wella canlyniadau, mynediad a boddhad

Yn dilyn cymeradwyo Cynllun Strategol Cydraddoldeb CCG yn Ionawr 2016, rydym wedi cyflawni'r canlynol:

- Cwynion yn cael eu monitor a gwersi yn cael eu dysgu yn cael eu tracio i sicrhau nad oes unrhyw gwsmer yn profi gwahaniaethu a chael y gwasanaeth gorau un gan CCG

- Adroddiad yn cael ei redeg bob chwarter ar broffil y tenantiaid sy'n cwyno i gynnwys ethnigrwydd, anabledd ayb
- Canlyniadau arolwg Boddhad Blynyddol hefyd yn dadansoddi darganfyddiadau i grwpiau oed, ethnigrwydd, crefydd, anabledd ayb

Amcan 6: Cael gweithlu amrywiol sy'n cael ei gefnogi

Yn dilyn cymeradwyo Cynllun Strategol Cydraddoldeb CCG yn Ionawr 2016, rydym wedi cyflawni'r canlynol:

- Mae gwybodaeth proffil staff ac ymgeiswyr yn cael ei gasglu ond ar hyn o bryd nid yw'n cael ei fonitro

Amcan 7: Adnabod a chyfarch unrhyw flychau o ran tâl i nodweddion sydd wedi'u diogelu

Yn dilyn cymeradwyo Cynllun Strategol Cydraddoldeb CCG yn Ionawr 2016, rydym wedi cyflawni'r canlynol:

- Mae ymarfer pen desg wedi'i gynnal a gofynnwyd am gyngor gan ymgynghorwyr sy'n arbenigo yn y maes dyfarnu cydnabyddiaeth. Mae CCG yn sefydliad risg isel o ran hawliadau am dâl cydradd.

Amcan 8: I gael cynrychiolydd Bwrdd sy'n ymgysylltu ac yn craffu ar berfformiad CCG o ran cydraddoldeb

Yn dilyn cymeradwyo Cynllun Strategol Cydraddoldeb CCG yn Ionawr 2016, rydym wedi cyflawni'r canlynol:

- Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Bwrdd wedi'i adnabod.
- Wedi ymgysylltu gyda 'Dewch ar y Bwrdd' ond gan fod amrywiaeth y Bwrdd yn dda ar hyn o bryd, mae CCG o'r farn nad oedd yn briodol ymgysylltu gyda rhaglen Dewch ar y Bwrdd yn 2015.

Gweithgaredd i'w ymgymryd o fewn y 12 mis nesaf…

- Bydd hyfforddiant pellach yn cael ei drefnu at fis Ionawr 2018 yn enwedig i aelodau sydd wedi ymuno gyda Phartneriaeth Tenantiaid CCG yn ddiweddar
- Cyflawni ymgyrch Comisiwn Llywyddol CHC ar arweinyddiaeth ac amrywiaeth '10 erbyn 20'
- Adnabod mwy o erthyglau newyddlen

- Bydd cyfathrebu i hyrwyddo parch a goddefgarwch o fewn cymunedau yn dasg gyfredol
- Bydd sicrhau hygyrchedd yn dasg gyfredol
- Bydd proffilio tenantiaid yn cael ei gwneud fel rhan o brosiect trawsnewid digidol (i'w gwblhau erbyn Mawrth 2020) pryd fydd holl staff blaen wynebu yn derbyn tabled a bydd CRM newydd mewn lle

- Sgyrsiau bocs tŵls pellach i'w cyflwyno i staff rheng flaen ar sut i adnabod ac atal digwyddiadau a chefnogi dioddefwyr
- Bydd gwefan CCG a dulliau eraill o gyfathrebu yn cael eu hadolygu fel rhan o brosiect Trawsnewid Digidol
- Fforymau ardal SLT i'w trefnu at Dachwedd 2017
- Anghenion hyfforddiant aelodau'r Bwrdd wedi ei adnabod. Bydd darparwr yn cael ei gaffael a hyfforddiant yn cael ei chynnal mis Ionawr 2018